

Rhif: WG15267



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Diweddaru rheoliadau cymwysterau  
athrawon ysgol yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2012



# Diweddaru rheoliadau cymwysterau athrawon ysgol yng Nghymru

- Cynulleidfa** Pob corff sy'n ymwneud â hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC); sefydliadau addysg uwch; Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC); Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon Cymru (UCET Cymru); Estyn; Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CynACC); Cynghorau Addysgu Cyffredinol Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon; awdurdodau lleol yng Nghymru; undebau athrawon a darlithwyr; ysgolion a gynhelir; Cyngor Ysgolion Annibynnol; a phobl eraill â diddordeb.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion ac yn rhoi adborth ar yr ymgynghoriad ar gynigion i ddiweddaru'r rheoliadau cymwysterau athrawon ysgol yng Nghymru a fuasai'n newid rhai o'r gofynion ar gyfer y rhai sydd am gael eu cydnabod yn athrawon cymwysedig yng Nghymru.
- Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.
- Rhagor o wybodaeth** Mae gwybodaeth bellach am yr ymgynghoriad hwn i'w chael gan:  
Gail Deane  
Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 029 2082 6530  
e-bost: [teachingenquiries@cymru.gsi.gov.uk](mailto:teachingenquiries@cymru.gsi.gov.uk)
- Additional copies** Mae'r dogfennau ymgynghori i'w cael o wefan Llywodraeth Cymru yn [www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau](http://www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau)

## **Cynnwys**

<b>1.</b>	<b>Cyflwyniad a throsolwg</b>	<b>1</b>
<b>2.</b>	<b>Y broses ymgynghori</b>	<b>2</b>
<b>3.</b>	<b>Sylwadau ar y cwestiynau yn yr ymgynghoriad a'n hymateb a'n hadborth ni</b>	<b>3</b>
<b>4.</b>	<b>Sylwadau cyffredinol nad ydyn nhw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chwestiynau penodol a ofynnwyd</b>	<b>15</b>
<b>5.</b>	<b>Y ffordd ymlaen</b>	<b>17</b>
	<b>Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr</b>	<b>18</b>
	<b>Atodiad B: Atebion cyhoeddedig</b>	<b>19</b>

# 1. Cyflwyniad a throsolwg

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gynigion i gyflwyno rheoliadau wedi'u diweddarau gan ddisodli Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004"). Buasai'r rhain yn newid rhai o'r gofynion ar gyfer y rhai sydd am gael eu cydnabod yn athrawon cymwysedig yng Nghymru:

- (a) byddai'n rhaid cyflawni'r cyfnod o brofiad addysgu ymarferol y mae'n ofynnol i unrhyw un ar gwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon ("HCA") yng Nghymru ei gyflawni mewn ysgol neu sefydliad addysg arall, yn gyfan gwbl neu'n bennaf mewn man lle mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn cael ei gyflwyno;
- (b) ar hyn o bryd, bydd unrhyw un sy'n athro cymwysedig o dan y Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol a luniwyd ar gyfer Lloegr hefyd yn cael ei gydnabod yn athro cymwysedig yng Nghymru. Yn lle hyn, cydnabyddid yn benodol rai yn unig o'r athrawon a gymhwysodd yn Lloegr. Byddai'r ddarpariaeth hon yn golygu mai dim ond y categorïau canlynol o athrawon sy'n cymhwyso yn Lloegr, a fyddai'n cael eu cydnabod yn athro cymwysedig yng Nghymru:-
  - (i) unigolion sy'n cymhwyso drwy gwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn sefydliad achrededig yn Lloegr;
  - (ii) y rhai a lwyddodd pan gawsant eu hasesu yn erbyn y safonau penodedig yn Lloegr ond nad ydynt wedi dilyn cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon penodol (sef llwybr Asesu yn Unig);
  - (iii) unigolion sy'n cwblhau'n llwyddiannus gyfnod o hyfforddiant ar gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth yn Lloegr.

Felly, yng Nghymru, ni fyddai'r cynigion yn ddilys sydd ar droed yn Lloegr i ganiatáu i'r holl athrawon addysg bellach ("AB") a chanddynt statws Athro Cymwysedig Dysgu a Sgiliau (QTLS) ac athrawon a chanddynt gymwysterau llawn o Awstralia, Canada, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau fod yn athrawon cymwysedig;

- (c) byddai'n ofynnol i unigolion sydd wedi'u cydnabod yn athrawon yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon fod wedi cyflawni cyfnod o brofiad addysgu ymarferol yno er mwyn iddynt gael eu cydnabod yn athrawon cymwysedig yng Nghymru. Byddai hyn yn atal athrawon sydd wedi'u hyfforddi tramor rhag dod yn athrawon cymwysedig yng Nghymru trwy'r Alban neu Ogledd Iwerddon heb fod wedi dysgu yn y Deyrnas Unedig;
- (ch) er mwyn diweddarau'r ddeddfwriaeth, byddai sôn am gydnabod athrawon o Ogledd Iwerddon yn cyfeirio at gofrestrriad gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon ("Cyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon").

1.2 Cynigiwyd hefyd na ddylid caniatáu mwyach i rai athrawon mewn ysgolion annibynnol neu addysg bellach a enillodd gymwysterau cyn 1974, neu 1989 mewn pynciau penodedig, fod yn gymwysedig yng Nghymru. Byddai mân newidiadau a diweddariadau cyffredinol hefyd yn cael eu cyflwyno i Reoliadau 2004.

## 2. Y broses ymgynghori

2.1 Ceisiwyd barn rhanddeiliaid yn gymorth i ystyried y newidiadau polisi arfaethedig. Cyhoeddwyd atodiad pellach i'r ymgynghoriad ar ôl dechrau'r ymgynghoriad. Cafodd y wybodaeth ychwanegol hon ei rhoi i'r holl grwpiau rhanddeiliaid a'i hanfon at bawb o'r rhai a oedd wedi cyflwyno eu hymateb eisoes. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori gyhoeddus ynghyd â'n hymateb ni. Cynhwysai rhai o'r ymatebion sylwadau cyffredinol nad oeddent yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r cwestiynau a ofynnwyd a rhoddir sylw manylach i'r rhain yn adran 4.

2.2 Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 30 Ionawr 2012. Derbyniwyd cyfanswm o 16 ymateb i'r ymgynghoriad gan sefydliadau. Gan un sefydliad, cafwyd sylwadau ar un yn unig o'r cwestiynau a ofynnwyd. Cafwyd ymatebion gan ddau sefydliad nad oeddent yn dymuno cael eu henwi. Derbyniwyd cyfanswm o 14 ymateb gan unigolion. Gofynnodd wyth o'r unigolion hyn am beidio â chael eu henwi. Mae crynodebau o'r prif bwyntiau a wnaed i'w gweld isod, ynghyd â'r camau a gymerwyd i ymateb i'r rhain ac adborth ar y prif themâu a'r pwyntiau allweddol a wnaed. Mae rhestr yn Atodiad A o'r holl rai a ymatebodd ac eithrio'r 10 sefydliad ac unigolyn a ofynnodd am gadw eu manylion yn gyfrinachol. Mae copïau o'r ymatebion a dderbyniwyd gan sefydliadau ac unigolion a enwyd i'w gweld yn Atodiad B.

2.3 Roedd rhai sylwadau tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad ac er y gwnaed pob ymdrech i gysylltu'r ymatebion hyn â themâu penodol yr ymgynghoriad nid oedd modd gwneud hyn bob tro. Fodd bynnag, rhoddwyd sylw llawn i hanfod yr holl sylwadau hyn.

2.4 Mae'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb ar gyfer yr ymgynghoriad hwn i'w gweld yn adran Addysg a Sgiliau (ymgynghoriadau sydd wedi dod i ben) ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau](http://www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau).

2.5 Hoffem achub y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad am eu cyfraniad.

### **3. Sylwadau ar y cwestiynau yn yr ymgynghoriad a'n hymateb a'n hadborth ni**

**Cwestiwn 1: Rydym yn cynnig y dylai'r cyfnod o brofiad addysgu ymarferol ar gyfer y sawl sy'n cymhwyso fel athrawon ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru gael ei gynnal yn gyfan gwbl neu'n bennaf mewn ysgol neu sefydliad addysgol arall (ac eithrio uned cyfeirio disgyblion) yng Nghymru sy'n bodloni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol. A ydych yn cytuno â hyn?**

#### **Pwyntiau a godwyd**

3.1.1 Roedd pedwar ar ddeg o'r un ar bymtheg o sefydliadau a wnaeth sylwadau ar y cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig ac roedd dau yn anghytuno. Roedd y pedwar ar ddeg o unigolion a ymatebodd yn anghytuno â'r cynnig hwn.

3.1.2 Teimlai'r rhai a gytunai â'r cynnig y disgwylid y byddai gan y rhan fwyaf o athrawon sy'n cymhwyso yng Nghymru brofiad o'r cyfnod perthnasol o addysg a'r rhan gysylltiedig o'r cwricwlwm cenedlaethol. Mynegwyd y farn mai'r ffordd orau o ennill profiad o'r fath wrth hyfforddi yw trwy sefydliadau addysgol sy'n addysgu'r cwricwlwm hwnnw.

3.1.3 Unigolion o ysgolion annibynnol oedd y rhan fwyaf o'r rhai a anghytunai â'r cynnig. Roedd y sylwadau yn cynnwys y dylid caniatáu i athrawon ennill profiad addysgu ymarferol mewn ysgol nad yw'n dysgu'r cwricwlwm cenedlaethol ar yr amod bod y rhan fwyaf o bynciau'r cwricwlwm (gan gynnwys yr un y mae'r athro yn hyfforddi ar gyfer ei addysgu) yn cael eu haddysgu yno. Teimlai rhai o'r ymatebion hyn fod addysgu Cymraeg fel rhan o'r cwricwlwm yn amhriodol yn y rhan fwyaf o ysgolion annibynnol. Mynegwyd pryder y byddai'r cynnig hwn yn atal athrawon mewn ysgolion annibynnol rhag cymhwyso trwy gynlluniau hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth neu y byddai'n atal sefydlu athrawon newydd gymhwyso mewn ysgolion annibynnol.

3.1.4 Gofynnodd ychydig o atebion pa ganran o amser a dreulir 'yn bennaf' mewn ysgol neu sefydliad addysgol arall fyddai'n cyfrif.

3.1.5 Teimlai un sefydliad, gan gytuno â'r cynnig, y dylai cyflenwyr HCA sy'n rhedeg TAR uwchradd ystyried lleoliadau mewn colegau addysg bellach ar gyfer profiad addysgu ymarferol er mwyn adlewyrchu llwybrau 14-19. Roedd o'r farn bod y llwybrau yn hanfodol er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol presennol. Mynegodd yr un sefydliad farn ar gyrsiau TAR (AB) addysg bellach, er nad oedd hyn o fewn cwmpas yr ymgynghoriad. Awgrymodd sefydliad arall a gytunai â'r cynnig y byddai'n fuddiol i bob hyfforddai dreulio rhan o'r cyfnod o brofiad addysgu ymarferol mewn uned cyfeirio disgyblion.

3.1.6 Teimlai un sefydliad efallai na fyddai modd cynnal y profiad addysgu ymarferol yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru mewn rhai pynciau petai'n rhaid

i'r ysgol neu'r sefydliad addysgol gwrdd â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol. Roeddent hefyd o'r farn y gallai rhai dybio mai ystyr y gofyniad hwn yw bod yn rhaid wrth brofiad ymarferol o addysgu'r Cwricwlwm Cymreig er mwyn i athrawon sydd wedi hyfforddi yng Nghymru allu gweithio fel athro ac y byddai ymagwedd o'r fath yn taseilio gwerthoedd a phwysigrwydd sgiliau trosglwyddadwy a chcludadwyedd cyflogaeth. Teimlent fod egwyddorion ac arferion addysgegol yn ogystal â gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol yn bwysicach na phrofiad ymarferol o addysgu'r Cwricwlwm Cymreig. Roeddent hefyd o'r farn nad oedd y cynnig yn gydnaws â'r ffaith y gellir cydnabod fel athrawon yng Nghymru rai a hyfforddwyd y tu allan i Gymru ac nad oedd wedi ymdrin â'r cwricwlwm Cymreig.

## **Sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r sylwadau hyn**

3.1.7 Mae'n debyg bod llawer o'r sylwadau ynghylch sefyllfa ysgolion annibynnol yn deillio o gamddealltwriaeth, gan fod y rhan o'r rheoliadau cymhwyso sy'n gofyn am gyfnod o brofiad addysgu ymarferol i'r rhai sy'n cymhwyso fel athrawon ar gyrsiau HCA yng Nghymru yn berthnasol i gyrsiau sy'n cael eu rhedeg trwy sefydliadau addysg uwch yn unig. Ni fyddai'r newid arfaethedig hwn yn cynnwys rhaglenni hyfforddi athrawon sy'n seiliedig ar gyflogaeth; darperir ar gyfer y rhain mewn cynllun arall a dogfennau polisi a threfniadau a gyflwynir dan y cynllun hwnnw. Hefyd, nid yw'r cynnig yn newid y sefyllfa o ran ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso. Trafodir hynny mewn rheoliadau eraill.

3.1.8 Cynigiwn y dylid gweithredu mewn ffordd hyblyg y gofyniad i gynnal y cyfnod o brofiad addysgu ymarferol yn gyfan gwbl neu'n bennaf mewn ysgol neu sefydliad addysgol arall yng Nghymru sy'n cwrdd â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol. Y cynnig yw mai'r elfen o'r cwricwlwm cenedlaethol y mae angen ei dysgu (mewn perthynas â'r cyfnod sylfaen neu gyfnodau allweddol dau, tri neu bedwar) fyddai'r un sy'n briodol i'r ysgol neu'r sefydliad addysgol ac y byddai'n cyfateb i'r cwrs HCA ac yn briodol i'r cwrs.

3.1.9 Mae'r ymadrodd "yn gyfan gwbl neu'n bennaf" mewn perthynas â'r cyfnod o brofiad addysgu ymarferol wedi'i gynnwys yn y rheoliadau cymhwyso ers Medi 2003. Ni theimlid ei bod yn briodol darparu diffiniad penodol na phennu cyfran arbennig gan fod gofyniad statudol ar bob cyflenwr HCA i sicrhau bod hyfforddiant yn ystyried anghenion hyfforddi unigol. Mae cyngor ar y mater hwn i'w weld yn "Dod yn Athro Cymwysedig: Llawlyfr Canllawiau", Cylchlythyr Rhif 017/2009, yn adrannau G2.1 (cynllun y rhaglen) a G2.5 (amser yn yr ysgol).

3.1.10 Mae'r ddeddfwriaeth bresennol a'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn cyfeirio at gynnal profiad addysgu ymarferol yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru mewn ysgol neu sefydliad addysgol ac felly petai cyflenwr HCA yn teimlo ei bod yn addas gallai ystyried lleoliadau mewn colegau addysg bellach mewn rhai amgylchiadau fel rhan o'r profiad addysgu ymarferol. Fodd bynnag, byddai angen i gyflenwyr HCA sicrhau bod unrhyw hyfforddiant tu allan i ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn cyfrannu at allu hyfforddai i fodloni'r Safonau SAC ac nad yw'n effeithio'n andwyol ar weddill y rhaglen hyfforddi. Yn yr un modd, gallai cyflenwyr HCA drefnu i hyfforddeion dreulio peth amser mewn uned gyfeirio disgyblion fel ategiad at raglen HCA. Fodd bynnag, mae uned gyfeirio disgyblion yn cael ei heithrio'n benodol o'r cyfnod angenrheidiol o brofiad addysgu ymarferol a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n

bennaf yng Nghymru gan na all ei darpariaeth benodol alluogi hyfforddai i ddangos yn llawn ei fod yn bodloni'r Safonau SAC.

3.1.11 Nid ydym yn credu y byddai unrhyw anhawster i gyflenwyr HCA drefnu i brofiad addysgu ymarferol gael ei gynnal yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru. Mae'r mwyafrif helaeth o'r profiad addysgu ymarferol hwnnw eisoes yn digwydd mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, sydd o reidwydd yn bodloni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol. Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion ar y mater hwn gan gyflenwyr HCA.

3.1.12 Un o nodweddion canolog y Safonau SAC yw gofynion sy'n ymwneud â'r cwricwlwm. Mae'n rhaid i hyfforddeion ddangos bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r pwnc/pynciau a'r cwricwlwm y maent yn hyfforddi i'w dysgu. Mae'n rhaid iddynt ddangos hefyd y gallant addysgu'n ddigonol ac yn annibynnol y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen neu a ddisgwylir ac sy'n berthnasol i'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr yn yr oedran y maent yn hyfforddi i'w haddysgu ac mae profiad addysgu ymarferol yn elfen hanfodol yn hyn o beth. Mae'r gofynion cyfreithiol hyn yn bodoli ers blynnyddoedd lawer, a hefyd y Cwricwlwm Cymreig statudol.

3.1.13 Fel y nododd y ddogfen ymgynghori, dan y darpariaethau presennol byddai angen i gyflenwyr HCA sicrhau bod cyfran sylweddol o brofiad addysgu ymarferol hyfforddeion yn digwydd mewn ysgolion sy'n cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol er mwyn cyflenwi eu dyletswydd o dan y gofynion statudol ar gyfer cyrsiau HCA (dylunio cynnwys, strwythur a darpariaeth hyfforddiant mewn modd a fydd yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i ddangos eu bod wedi bodloni'r safonau SAC statudol). Byddai'r ddarpariaeth arfaethedig yn nodi'r sefyllfa yn fwy amlwg, er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth.

3.1.14 Nid ydym yn credu y byddai ymagwedd o'r fath yn tanseilio gwerthoedd a phwysigrwydd sgiliau trosglwyddadwy a chcludadwyedd cyflogaeth. Fel y nodwyd, adlewyrchu'n gliriach y mae hyn yn y bôn sefyllfa sy'n bodoli eisoes. Mae SAC a enillir yng Nghymru trwy gyrsiau HCA sy'n cael eu rhedeg trwy sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn cael ei gydnabod mewn rhannau eraill o'r DU a'r Undeb Ewropeaidd ac ni fyddai'r cynnig hwn yn effeithio ar hynny.

3.1.15 Mae llawer o wledydd yn cydnabod bod cymwysterau a geir mewn gwledydd eraill yn gyfwerth er nad ydynt yn cyfateb ym mhob agwedd. Mae'n amlwg na fydd athrawon sydd wedi eu hyfforddi y tu allan i Gymru ac sy'n dod i weithio yma, wedi dilyn y cwricwlwm Cymreig ar eu cyrsiau ond byddai'n wrthnysig i awgrymu bod hyn yn golygu na ddylid cynnwys elfennau Cymreig penodol megis y cwricwlwm ar gyrsiau yng Nghymru.

**Cwestiwn 2: Rydym am ddisodli'r ddarpariaeth yn Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Cymru) 2004 sy'n cydnabod fel athro cymwysedig yng Nghymru unrhyw unigolyn sy'n athro cymwysedig yn rhinwedd y rheoliadau a wnaed mewn perthynas â Lloegr gyda darpariaeth fwy penodol sydd ond yn cwmpasu categorïau penodol o bobl sy'n cymhwyso yn Lloegr.**

**Byddai'r ddarpariaeth newydd hon yn cwmpasu pobl sy'n cymhwyso fel athro yn Lloegr drwy:**

- (i) cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn sefydliad achrededig yno;**
- (ii) asesiad yn erbyn y safonau penodedig yno, ond heb ymgymryd â chwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon penodol (a elwir yn llwybr Aseiad yn Unig);**
- (iii) cwblhau'n llwyddiannus gyfnod o hyfforddiant ar gynllun hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth yn Lloegr.**

**A ydych yn cytuno â hyn?**

**Pwyntiau a godwyd**

3.2.1 Roedd deuddeg o'r pymtheg sefydliad a wnaeth sylwadau ar y cwestiwn yn cytuno â'r cynnig hwn, roedd un yn anghytuno â rhan o'r cynnig ac yn cytuno â rhan arall ac roedd tri yn ansicr. Awgrymodd un o'r sefydliadau a gytunai â'r cynnig, wrth ymateb i gwestiwn arall, y byddent efallai yn anghytuno â rhan ohono. Roedd deuddeg o'r pedwar ar ddeg o unigolion a ymatebodd yn anghytuno â'r cynnig hwn ac roedd dau yn ansicr.

3.2.2 Nid oedd yr un o'r atebion a dderbyniwyd gan Gynghorau Addysgu Cyffredinol yn anghytuno â'r cynnig. Teimlai Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod yn ddoeth o ystyried y sefyllfa o ran y cyflenwad o athrawon a'r ffaith y gall athrawon addysg bellach addysgu pynciau galwedigaethol mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn awr fel rhan o gwricwla lleol dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban 'ansicr' ond fe nodwyd bod eu gofynion yn fwy caeth na'r cynnig hwn ar hyn o bryd, gan dderbyn athrawon o system Lloegr sydd wedi cwblhau llwybr (i) yn llwyddiannus yn unig; roedd posibilrwydd y gallai Rhaglenni Athrawon Graddedig penodol (llwybr (iii)) sy'n bodloni gofynion yr Alban gael eu hachredu yn y dyfodol. Teimlai Cyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon fod y categorïau a nodwyd yn rhesymol ac yn gyson â'r drefn a ddilyniir ganddynt yng Ngogledd Iwerddon.

3.2.3 Dywedodd un sefydliad a gytunai â'r cynnig ei bod yn bwysig bod yr eithriadau a roddir dan Reoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010 yn glir ynghylch y gwahaniaeth rhwng yr athrawon addysg bellach

cymwys hynny sy'n cael addysgu mewn ysgolion heb gyfyngiad a'r rhai nad ydynt yn cael. Awgrymodd yr un sefydliad mewn ymateb i gwestiwn arall y dylai athrawon sydd â chymhwyster llawn o wledydd eraill megis rhai o wledydd y gymanwlad gael addysgu mewn ysgolion fel athrawon cymwys heb orfod dilyn hyfforddiant neu gael asesiad pellach.

3.2.4 Roedd gan un sefydliad a oedd yn ansicr bryderon ynghylch cynnwys y llwybr Aseiad yn Unig ar bwynt (ii) a gofynnwyd am sicrwydd bod y llwybr hwn yn ddigon cadarn o ran safonau ar gyfer ymarfer addysgu llwyddiannus.

3.2.5 Roedd sefydliad arall yn ansicr a fyddai'r newid arfaethedig i gymwysterau penodol yn cyfyngu ar allu athrawon sydd â chymwysterau priodol i symud yn rhydd rhwng addysgu yng Nghymru a Lloegr mewn unrhyw ffordd. Teimlent y dylid diogelu'r gallu hwnnw.

3.2.6 Cytunodd un sefydliad â'r cynnig mewn perthynas â pheidio â chydabod athrawon addysg bellach sydd â Statws Athro Cymwysedig Dysgu a Sgiliau fel athrawon cymwysedig yng Nghymru. Eu barn nhw oedd y dylid cadw SAC fel y cymhwyster i athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion.

3.2.7 Anghytunai'r un sefydliad â'r cynnig yn yr ystyr y byddai'n golygu na fyddai athrawon â chymwysterau llawn o Awstralia, Canada, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau (a fyddai'n dod yn athrawon cymwysedig yn Lloegr o dan newidiadau arfaethedig a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg) yn cael eu cydnabod fel athrawon cymwysedig yng Nghymru. Teimlent nad oedd rheswm y gellir ei gyfiawnhau'n wrthrychol dros y cyfyngiad hwn ac nid oeddent yn hapus y byddai'n ofynnol i athrawon o wledydd tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir ddilyn hyfforddiant ac asesiad pellach. Teimlent hefyd y dylid profi nad yw'r safonau a'r lefelau ansawdd sy'n ofynnol mewn gwledydd tramor cystal â Safonau SAC.

3.2.8 Teimlai'r unigolion a anghytunai â'r cynnig y dylid cael ymagwedd unffurf at gymwysterau athrawon rhwng gwledydd y DU. Dadleuodd rhai y dylid derbyn cymwysterau addysgu tramor. Dadleuodd un y caiff athrawon sydd wedi cymhwyso yng Nghymru addysgu yn Lloegr ac felly dylai'r rhai a gymhwysodd yn Lloegr gael dysgu yng Nghymru. Awgrymodd un y byddai'r cynnig yn wahaniaethol mewn perthynas â deddfwriaeth cyflogaeth yr Undeb Ewropeaidd.

## **Sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r sylwadau hyn**

3.2.9 O ran beth mae athrawon addysg bellach yn cael ei wneud ar hyn o bryd mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, nododd y ddogfen ymgynghori bod Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010 ("y rheoliadau gwaith penodedig") eisoes yn caniatáu i athrawon addysg bellach cymwysedig wneud gwaith addysgu mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru dan rai amgylchiadau. Mae'r rheoliadau gwaith penodedig yn glir ynghylch yr amgylchiadau lle mae hyn yn gallu digwydd: mae'n rhaid i'r gwaith addysgu dan y ddarpariaeth arbennig hon fod yn waith sy'n cyflwyno cyrsiau galwedigaethol fel rhan neu'r cyfan o gwricwlwm lleol dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009. Cwricwlwm lleol yw un a luniwyd gan awdurdod lleol dan adran 116A Deddf Addysg 2002 (ar gyfer y rhai 14 i 16 oed); neu gan Weinidogion Cymru dan adran 33A Deddf Dysgu a Sgiliau

2000 (ar gyfer y rhai 16 i 18 oed). Yn y bôn, mae'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i athrawon addysg bellach cymwysedig gyflwyno agweddau o addysgu addysg bellach mewn perthynas â chyrsgiau galwedigaethol mewn ysgol a gynhelir.

3.2.10 Mae'r rheoliadau gwaith penodedig yn darparu opsiwn arall i athrawon addysg bellach wneud gwaith addysgu mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, er nad yw'n gyfyngedig i athrawon addysg bellach yn benodol. Gall unigolion sydd â "chymwysterau arbennig neu brofiad arbennig" addysgu unrhyw gelfyddyd neu sgil, neu unrhyw bwnc, mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru lle mae angen cymwysterau arbennig neu brofiad arbennig neu'r ddau er mwyn gwneud hyn. Fodd bynnag, ni ellir caniatáu hyn oni bai nad oes athro addas â SAC neu athro ar y cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth ar gael ar gyfer penodiad o'r fath (neu yn achos cyflwyno cyrsiau galwedigaethol fel rhan neu'r cyfan o gwricwlwm lleol, nad oes athro addysg bellach cymwys addas), a dim ond tra bo'r sefyllfa honno'n para. Mae'n rhaid i'r ysgol neu'r awdurdod lleol dan sylw fod yn fodlon ynghylch cymwysterau a/neu brofiad yr unigolyn.

3.2.11 Mae disodli'r ddarpariaeth lle mae unrhyw un sy'n athro cymwysedig yn Lloegr hefyd yn athro cymwysedig yng Nghymru a chyflwyno yn ei lle ddarpariaeth fwy penodol sy'n cynnwys rhai categorïau yn unig o bobl sy'n gymwys yn Lloegr, wedi cael ei geirio i gynrychioli'r holl lwybrau at SAC a gydnabyddir ar hyn o bryd. Mae'r llwybr Asesiad yn Unig yn cynnwys asesiad penodol o unigolion yn erbyn yr un safonau SAC yn Lloegr â'r rhai sy'n rheoli llwybrau eraill.

3.2.12 Ni fyddai'r newid arfaethedig yn cyfyngu ar allu athrawon sydd eisoes yn gymwysedig i symud yn rhydd rhwng addysgu yng Nghymru a Lloegr ac ni fyddai chwaith yn effeithio ar y rhai fydd yn cymhwyso yn y dyfodol trwy'r llwybrau a dderbynnir ar hyn o bryd. Yr unig gyfyngiad fyddai ar unrhyw athrawon yr ystyrir eu bod yn gymwysedig trwy sefyllfaoedd nad ydynt yn y ddeddfwriaeth bresennol. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, petai ein rheoliadau arfaethedig i ddiweddarau cymwysterau a'r newid arfaethedig gan yr Adran Addysg yn Lloegr yn cael eu rhoi ar waith, ystyr hyn yw y byddai gan athrawon sydd â chymwysterau llawn o Awstralia, Canada, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau SAC yn Lloegr a byddent yn cael addysgu mewn ysgolion yno fel athrawon cymwysedig. Fodd bynnag, ni fyddent yn cael eu cydnabod fel athrawon cymwysedig yng Nghymru.

3.2.13 Byddai'r newid arfaethedig hefyd yn golygu y bydd gan athrawon sydd wedi cymhwyso yng Nghymru ac sy'n cael addysgu yn Lloegr wedi ennill SAC ar lwybrau sy'n cael eu derbyn hefyd yng Nghymru ar gyfer athrawon sydd wedi cymhwyso yn Lloegr. Nid yw hyn yn newid y sefyllfa bresennol.

3.2.14 Mae'r papur ymgynghori yn nodi'n glir y gall rhai gwledydd tramor fod â systemau hyfforddiant cychwynnol athrawon a chymwysterau addysgu sydd â safonau a lefelau ansawdd tebyg i'r DU. Fodd bynnag, roeddem yn glir, er y gallai hyn ddangos addasrwydd cymharol athrawon o'r gwledydd hyn i addysgu yn y DU, na fyddem yn ystyried bod hyn yn golygu y gellid ystyried bod cymhwyster addysgu o'r gwledydd hyn yn cyfateb yn llawn mewn perthynas â'r gofynion yn y Safonau SAC.

3.2.15 Un o brif elfennau'r Safonau SAC yw eu bod yn mynnu bod yn rhaid i hyfforddeion ar gyrsiau HCA ddangos bod ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm y maent yn hyfforddi i'w ddysgu. Mae nifer o elfennau yn y cwricwlwm sy'n benodol i Gymru. Mae'r Safonau SAC yn cynnwys nifer o'r rhain yn benodol, gan gynnwys Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen; digon o wybodaeth o'r Gymraeg fel ail iaith i allu ei dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2; mewn perthynas â'r oedran y maent yn hyfforddi i'w ddysgu, maent yn deall y dylid rhoi cyfle i ddysgwyr 7-14 oed yng Nghymru, lle mae'n briodol, ddatblygu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol a ieithyddol Cymru (y Cwricwlwm Cymreig); ac y dylid rhoi cyfle i ddysgwyr 14-19 oed ymgysylltu yn weithredol er mwyn deall agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru fel rhan o'r byd cyfan (Cymru, Ewrop a'r Byd). Credwn, felly, na ddylai athrawon sydd wedi hyfforddi dramor gael addysgu mewn ysgolion yng Nghymru fel athrawon cymwysedig i'r hirdymor heb broses sy'n arwain at eu hasesu yn erbyn y Safonau SAC.

3.2.16 Byddai'r cynnig yn golygu y byddai'n ofynnol i athrawon o wledydd tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir ddilyn rhagor o hyfforddiant ac asesiad. Fodd bynnag, felly mae hi ar hyn o bryd hefyd ac felly ni fyddai'r sefyllfa yn newid.

3.2.17 Mae gwahaniaethau yn ymagwedd gwahanol wledydd y DU at gymwysterau athrawon ers blynyddoedd lawer erbyn hyn. Fel y nodwyd ym mharagraff 3.2.2, er enghraifft, nid yw'r Alban yn derbyn athrawon sydd wedi ennill SAC trwy lwybrau addysgu sy'n seiliedig ar gyflogaeth megis y Rhaglen Athrawon Graddedig. Gall y gwahaniaethau hyn adlewyrchu ymagweddau gwahanol at gymhwyso athrawon ac at addysg yn gyffredinol ac mae gan wahanol wledydd y DU yr hawl i fabwysiadu'r gwahanol ymagweddau hyn sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau yn y gwledydd hynny. Yn yr achos arbennig hwn byddai'r cynnig yn berthnasol i Loegr yn unig fel rhan arall o'r DU ac ni fyddai'n effeithio ar aelod-wladwriaethau eraill.

**Cwestiwn 3: Rydym am atal rhywun a all fod wedi cael ei gydnabod fel athro yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon heb iddo/iddi fod wedi addysgu yn y gwledydd hynny rhag gallu cymhwyso fel athro yng Nghymru. Rydym yn cynnig y dylid pennu gofyniad sy'n nodi bod yn rhaid gweithio 60 diwrnod mewn sefydliad addysgol yn y gwledydd hynny. A ydych yn cytuno â hyn?**

### **Pwyntiau a godwyd**

3.3.1 Roedd tri ar ddeg o'r pymtheg sefydliad a wnaeth sylwadau ar y cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig hwn, anghytunai un ac roedd un yn ansicr. Roedd tri ar ddeg o'r pedwar ar ddeg o unigolion a atebodd yn anghytuno â'r cynnig hwn ac roedd un yn ansicr.

3.3.2 Roedd Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban, Cyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon ac Adran Addysg Gogledd Iwerddon ymhlith y sefydliadau a gefnogai'r cynnig hwn. Roedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn cytuno'n llwyr y dylid cyflwyno'r ddarpariaeth hon.

3.3.3 Roedd y sefydliad a anghytunai â'r cynnig hwn yn teimlo ei fod ynghylch cyflogadwyedd yn hytrach nag addasrwydd cymwysterau addysgu. Awgrymodd nad oedd y cynnig yn rhesymegol gan na osodwyd yr un gofyniad ar athrawon tramor a dderbyniodd SAC yn Lloegr, a themlai'r sefydliad y gallai'r cynnig fod yn agored i her gyfreithiol.

3.3.4 Roedd yr unigolion a anghytunai â'r cynnig yn teimlo y dylai SAC a enillwyd mewn un rhan o'r DU gael ei dderbyn ym mhob rhan arall o'r DU. Un sylw a wnaed oedd nad oedd yn bwysig lle y dilynwyd yr hyfforddiant ac y dylai'r athrawon gorau gael dysgu mewn unrhyw le ac y byddai'r cynnig yn rhwystro athrawon dawnus rhag dod i Gymru. Roedd un atebwydd yn credu y gellid darllen y cynnig i awgrymu nad oedd hyfforddi athrawon mor effeithiol yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon ag yng Nghymru.

### **Sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r sylwadau hyn**

3.3.5 Caiff athrawon sy'n cymhwyso yn yr Alban a Gogledd Iwerddon eu cydnabod fel athrawon cymwysedig yng Nghymru trwy ddau lwybr, sef y rhai sy'n cymhwyso trwy gyrsiau HCA yn y gwledydd hynny a'r rhai sy'n cymhwyso trwy gael eu cydnabod gan yr awdurdodau priodol yn y gwledydd hynny. Mae'r cynnig sy'n destun ymgynghoriad yn ymwneud â'r ail lwybr yn unig. Mae'n ymddangos ei bod yn bosibl i athrawon sydd wedi hyfforddi dramor gael cydnabyddiaeth ymlaen llaw gan yr awdurdodau priodol yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon heb ddysgu yn y gwledydd hynny a heb wneud HCA yno.

3.3.6 Er mwyn ennill cofrestriad llawn gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban, mae'n ofynnol i athrawon gwblhau cyfnod o wasanaeth ar brawf o ddim llai na 60 diwrnod gan weithio mewn ysgol yn y wlad honno. Credwn, ar gyfer athrawon sy'n dibynnu ar eu cydnabyddiaeth gan Gyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban ar gyfer mynediad i statws athro cymwysedig yng Nghymru, ei bod yn rhesymol mynnu bod y gydnabyddiaeth hon ar lefel y cofrestriad llawn hwn. Credwn hefyd ei bod yn rhesymol y dylai'r un gofyniad o weithio am 60 diwrnod fod yn berthnasol i athrawon sy'n dibynnu ar eu cydnabyddiaeth gan yr awdurdodau priodol fel athro yng Ngogledd Iwerddon.

3.3.7 Ni fyddai'r math hwn o ofyniad yn berthnasol i athrawon sy'n ennill SAC yn Lloegr, gan nad oes llwybr cyfatebol ar wahân yno i gymhwyso trwy gael cydnabyddiaeth gan yr awdurdodau priodol. Heblaw'r rhai sy'n cymhwyso mewn gwledydd eraill yn y DU neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir, yr unig ffyrdd o ennill SAC yn Lloegr ar hyn o bryd yw trwy lwybrau sydd eisoes yn cael eu cydnabod yng Nghymru a hefyd yn cael eu cydnabod yn yr un modd yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Byddai'r ychwanegiad arfaethedig yn Lloegr i gydnabod athrawon sydd â chymwysterau llawn o Awstralia, Canada, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau yn eu galluogi i addysgu mewn ysgolion yn Lloegr fel athrawon cymwysedig heb ddilyn unrhyw hyfforddiant neu asesiad pellach a swyddogaeth yr Asiantaeth Addysgu newydd fyddai dim ond i wirio cymwysterau addysgu unigolion o dramor ar ôl iddynt ddangos llythyr oddi wrth yr awdurdod perthnasol dramor.

3.3.8 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.2.17, mae gwahaniaethau hirsefydlog yn barod yn yr ymagwedd at gymwysterau athrawon rhwng gwledydd y DU. Mae'r

gofyniad mewn perthynas â'r rhai sy'n dibynnu ar gydnabyddiaeth gan Gyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban fel mynediad i statws athro cymwysedig yng Nghymru yn adlewyrchu'r arferion yn yr Alban ei hun. Y cyfan y mae'n ei wneud yw gosod safon gyfatebol ar gyfer y rhai sy'n gofrestrdig gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon.

3.3.9 Nid yw'r cynnig yn dweud dim am safon HCA yn yr Alban a Gogledd Iwerddon: mae'r rhai sydd wedi llwyddo i gwblhau cwrs HCA mewn sefydliad addysgol yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn cael eu cydnabod yn athrawon cymwysedig yng Nghymru a bydd y gydnabyddiaeth hon yn parhau. Mae'r cynnig yn ymwneud yn unig â'r rhai sy'n ennill cofrestrdig gan y ddau Gyngor Addysgu Cyffredinol heb gwblhau HCA yn y gwledydd hynny.

#### **Cwestiwn 4: A ydych yn cytuno, ar gyfer y sawl a allai fod yn athrawon cymwysedig yn rhinwedd y ffaith iddyn nhw gael eu cydnabod fel athrawon mewn ysgolion yng Ngogledd Iwerddon, y dylem gyfeirio nawr at eu cofrestrdig gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon?**

##### **Pwyntiau a godwyd**

3.4.1 Roedd un ar ddeg o'r pymtheg sefydliad a wnaeth sylwadau ar y cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig hwn ac roedd pedwar yn ansicr. Roedd un o'r pedwar ar ddeg o unigolion a atebodd yn cytuno â'r cynnig hwn, roedd wyth yn anghytuno ac roedd pump yn ansicr.

3.4.2 Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon fod y cynnig hwn yn cydnabod ac yn adlewyrchu newidiadau yng Ngogledd Iwerddon ac fe groesawodd y Cyngor y cynnig. Cefnogodd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru y cynnig hwn, gan ddweud y byddai'n sicrhau cysondeb â'r dull presennol ar gyfer athrawon o'r Alban.

3.4.3 Dywedodd un sefydliad a oedd yn ansicr fod hyn yn adlewyrchu'r ansicrwydd a fyddai Cyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon yn dal i fodoli, o wybod bod Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr yn cael ei ddiddymu. Fodd bynnag, ychwanegodd fod y cynnig hwn yn synhwyrol tra mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon yn bodoli ac yn gweithredu i'w safonau presennol.

3.4.4 Credai sefydliad arall a oedd yn ansicr y dylid trafod y mater hwn â'r weinyddiaeth ddatganoledig yng Ngogledd Iwerddon. Awgrymodd fod y cynnig yn y ddogfen lle rhoddir gwybodaeth ychwanegol yn fwy priodol (sef bod athrawon sydd â hawl i ymarfer yn y Deyrnas Unedig o dan Reoliadau'r Cymunedau Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2007 yn cael eu cydnabod fel athrawon cymwysedig a bod rhaid iddynt gael hysbysiad ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru neu'r Cyngor Addysgu Cyffredinol yn nodi hyn).

3.4.5 Gwnaeth yr unigolion nad oedd yn cytuno â'r cynnig nifer o wahanol bwyntiau. Roedd un o'r farn bod y cynghorau addysgu cyffredinol wedi methu a gofynnodd a oedd eu hangen gan nad oeddent ym marn yr unigolyn hwnnw yn cynnig llawer a'u bod yn gostus. Dywedodd un arall, os cafodd athro ei hyfforddi yng

Ngogledd Iwerddon y dylid caniatáu iddo gael ei gyfnod ymsefydlu mewn unrhyw le yn y DU. Nododd unigolyn arall, os oedd pobl yn athrawon cymwysedig, nad oedd cofrestriad o bwys ac na fyddai'n eu gwneud yn well athrawon.

3.4.6 Nododd un unigolyn nad oedd yn sicr, os oedd y safonau ar gyfer cydnabyddiaeth yng Ngogledd Iwerddon yn gyfatebol â gweddill y DU yna dylid cydnabod y sgiliau hynny ledled y DU. Awgrymodd un arall nad oedd a wnelo hyn ddim â Chymru.

### **Sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r sylwadau hyn**

3.4.7 Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon yn gweithredu ac nid oes unrhyw gynigion ar y gweill sy'n awgrymu na fydd yn dal i fodoli. Mae cydnabod cofrestriad gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon yn angenrheidiol er mwyn cydnabod y ffeithiau.

3.4.8 Ymgynghorwyd ag Adran Addysg Gogledd Iwerddon a hefyd Cyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon ynghylch y cynnig hwn. Cytunai'r ddau gorff. Mae'r broses ar gyfer cydnabod athrawon sydd â hawl i ymarfer yn y Deyrnas Unedig o dan Reoliadau'r Cymunedau Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2007 yn berthnasol i wledydd tu allan i'r DU; nid yw'r ddeddfwriaeth yn berthnasol o fewn y DU.

3.4.9 Rydym yn nodi'r safbwyntiau ynghylch y cynghorau addysgu cyffredinol ond gan fod Cyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon (yn yr achos hwn) yn bodoli mae angen i ni ei ystyried. Yn yr un modd, efallai bod rhai yn amheus am werth cofrestriad, ond mae cofrestriad gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon yn ofyniad ac mae ein cynnig yn adlewyrchu bodolaeth y gofyniad hwn. Ni fyddai'r cynnig hwn yn atal rhywun sydd wedi hyfforddi yng Ngogledd Iwerddon rhag cael cyfnod ymsefydlu yng Nghymru, ar yr amod ei fod yn bodloni'r gofynion ymsefydlu, sy'n wahanol yma.

3.4.10 Mae'r cynnig yn adlewyrchu gofynion sy'n bodoli yng Ngogledd Iwerddon ac mae'r awdurdodau yno wedi ei groesawu. Mae'n berthnasol i Gymru oherwydd mae'n cynnwys un o'r categorïau o athrawon sy'n cymhwyso yn rhywle arall ac, os dymunant weithio yng Nghymru, rydym yn nodi y byddent yn cael eu cydnabod fel athro yma.

### **Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno na ddylem barhau gyda darpariaeth sy'n caniatáu i rai athrawon mewn ysgolion annibynnol neu addysg bellach gael eu cydnabod yn athrawon ar sail cymwysterau a enillwyd cyn 1974, neu 1989 mewn rhai pynciau?**

#### **Pwyntiau a godwyd**

3.5.1 Roedd un ar ddeg o'r pymtheg sefydliad a wnaeth sylwadau ar y cwestiwn yn cytuno â'r cynnig hwn, roedd dau yn ansicr a dau yn anghytuno. Roedd un o'r pedwar ar ddeg o unigolion a atebodd yn cytuno â'r cynnig hwn, roedd tri ar ddeg yn anghytuno ac roedd un yn ansicr.

3.5.2 Nododd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ei fod wedi cadarnhau SAC i ddim ond dau athro trwy'r ddarpariaeth hon ers 2003. Oherwydd hynny, credai'r Cyngor fod unigolion o'r fath wedi cael hen ddigon o amser a chyfle i geisio cydnabyddiaeth. Nododd sefydliad arall ei bod yn ymddangos bod hyn yn fater hanesyddol yn bennaf a bod rhesymeg glir dros y newid arfaethedig.

3.5.3 Dywedodd un sefydliad a oedd yn ansicr ei bod yn anodd gwneud sylwadau heb wybod y niferoedd. Credai, os oedd y niferoedd yn fach ac yn lleihau, yna efallai y byddai'n dderbyniol gadael i'r ddarpariaeth ddod i ben. Fodd bynnag, teimlai mewn egwyddor y byddai ymagwedd fwy cyson pe na bai anghysonderau lle gallai athrawon ennill SAC mewn ffyrdd ansafonol. Cydnabu sefydliad arall nad oedd yn sicr fod y nifer sydd wedi defnyddio'r ddarpariaeth hon yn y blynyddoedd diwethaf yn fach ond dywedodd y byddai angen iddo fod yn sicr na fyddai unrhyw anfantais neu wahaniaethu yn digwydd petai'r ddarpariaeth hon yn dod i ben yng Nghymru.

3.5.4 Dywedodd un sefydliad a oedd yn anghytuno fod arnynt eisiau eglurhad pellach ar y pwynt hwn, ynghylch y cymwysterau a'r pynciau, cyn iddynt allu llunio barn oleuedig. Dywedodd y sefydliad arall a oedd yn anghytuno y dylai'r darpariaethau presennol aros fel y maent ar gyfer athrawon addysg bellach.

3.5.5 Gwnaeth yr unigolion nad oedd yn cytuno â'r cynnig nifer o wahanol bwytiau. Dywedodd un unigolyn nad oedd angen newid yn y ddeddfwriaeth gan y byddai'r broblem yn diflannu'n fuan wrth i'r niferoedd leihau.

3.5.6 Awgrymodd un unigolyn fod y cynnig yn ymddangos yn wahaniaethol oherwydd bod athrawon yn symud rhwng y sector annibynnol a sector y wladwriaeth a bod angen yr un sgiliau addysgu. Ychwanegodd un arall ei bod yn debygol bod gan athrawon profiadol o ysgolion annibynnol sgiliau da i'w cynnig i unrhyw ysgol ac y dylai Cymru ganiatáu i ysgolion a gynhelir recriwtio'r athrawon hyn.

3.5.7 Dywedodd tri unigolyn fod y cynnig yn oedraniaethol a gwahaniaethol. Cwestiynodd un o'r rhain a oedd y dyddiadau yn berthnasol a dywedodd un arall na ddylai fod yn fater o bwys pryd roedd pobl wedi hyfforddi.

## **Sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r sylwadau hyn**

3.5.8 Mae'r ddarpariaeth bresennol yn caniatáu i rai athrawon mewn ysgolion annibynnol neu addysg bellach a enillodd gymwysterau cyn 1974, neu 1989 mewn rhai pynciau, gymhwyso fel athro. Cyn hynny, daeth y rhai a enillodd gymwysterau addysgu yn athrawon cymwysedig os oedd eu swyddi cyntaf mewn ysgol a gynhelir ond nid os oeddent mewn colegau addysg bellach neu ysgolion annibynnol. Wedyn, roedd ennill SAC yn gysylltiedig â dilyn cyrsiau HCA penodol.

3.5.9 Mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i'r grŵp hwn yn unig oherwydd na all y mater ond effeithio ar bobl sydd wedi hyfforddi cyn y dyddiadau hyn. Nid yw'n effeithio ar athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion annibynnol neu sefydliadau addysg bellach ar hyn o bryd ond sydd â SAC.

3.5.10 Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae'r opsiwn hwn ar gael yng Nghymru ers rhyw naw mlynedd ac mae'r nifer sydd wedi manteisio arno yn fach.

Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru wedi cadarnhau mai dim ond dau athro sydd wedi cadarnhau SAC gyda nhw trwy'r ddarpariaeth hon yn ystod y cyfnod hwn.

3.5.11 Cwblhaodd unrhyw un yn y grŵp hwn ei gwrs 23 mlynedd yn ôl (ar gyfer rhai cyrsiau) neu 38 mlynedd yn ôl (ar gyfer rhai eraill). I'r rhai nad ydynt wedi symud i'r sector a gynhelir o'r blaen, rydym yn credu bod hyn yn fwllch rhy hir i ganiatáu iddynt ddechrau addysgu yn y sector a gynhelir heb asesu eu safonau. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru wedi cyflwyno gofyniad newydd, sef o 1 Medi 2012 ymlaen, y bydd yn rhaid i unrhyw athro cymwysedig sy'n ceisio dychwelyd i'r proffesiwn addysgu yng Nghymru ar ôl seibiant o bum mlynedd neu ragor fodloni meini prawf y Cyngor sef "Dychwelyd i Addysgu".

3.5.12 Yn yr amgylchiadau, nid ydym yn credu ei bod yn hyfyw cadw'r opsiwn ansafonol hwn ar gyfer niferoedd mor fach pan fo ffyrdd eraill ar gael i ennill SAC.

**Gwybodaeth ychwanegol: rydym yn bwriadu darparu mewn diweddariad i ddisodli Rheoliadau 2004 bod y rhai sydd â hawl i ymarfer y proffesiwn o athro ysgol yn y Deyrnas Unedig yn unol â Rhan 2 a Phenodau 1, 2 a 4 yn Rhan 3 Rheoliadau'r Cymunedau Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2007 yn athrawon cymwysedig, a bod yn rhaid iddynt dderbyn hysbysiad ysgrifenedig o hyn gan Weinidogion Cymru neu Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.**

### **Pwyntiau a godwyd**

3.6.1 Cefnogai Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru y cynnig hwn, gan nodi ei fod eisoes yn ymarferol yn gweithredu fel hyn fel rhan o'i swyddogaeth fel 'awdurdod cymwys' o dan Reoliadau 2007. Cefnogai un sefydliad arall y cynnig. Ni dderbyniwyd atebion eraill ar y mater hwn.

### **Sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r sylwadau hyn**

3.6.2 Cynigiwn y dylid gweithredu'r newid technegol hwn, a fydd yn adlewyrchu'r arferion presennol.

## **4. Sylwadau cyffredinol nad ydyn nhw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chwestiynau penodol a ofynnwyd**

### **Pwyntiau a godwyd**

4.1 Cododd un sefydliad fater ynghylch Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010, gan ddweud, er bod y rheoliadau hyn yn caniatáu i athrawon addysg bellach cymwysedig gyflwyno cyrsiau galwedigaethol mewn ysgolion a gynhelir, ei fod yn credu y dylid estyn hyn i bynciau academiaidd. Credai y dylid caniatáu i athrawon addysg bellach cymwysedig addysgu mewn ysgolion ar yr un sail ag y caniateir i athrawon sydd wedi hyfforddi dramor wneud.

4.2 Gofynnodd un sefydliad am i ddatganiad yn rhoi asesiad o'r effaith gael ei gynhyrchu. Teimlai hefyd y dylid darparu prawf nad yw'r safonau a'r lefelau ansawdd sy'n ofynnol mewn gwledydd tramor cystal â HCA yng Nghymru neu'r Safonau SAC.

4.3 Nododd un ymateb y dylai fod yn ofynnol i hyfforddeion ddysgu am yr amgylchedd awyr agored yn ogystal â'r amgylchedd dan do a gwneud y defnydd gorau ohono er mwyn cael dysgu effeithiol ar bob lefel o'r Cyfnod Sylfaen tan ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.

